



NMC Nursing &
Midwifery
Council

Strategaeth 2020–2025

Ymgynghoriad ar themâu
strategol drafft

Shaping the
future **NMC**
2020  25

Neges gan ein Cadeirydd a'n Prif Weithredwr a Chofrestrydd

Rydym mor falch bod gennych ddiddordeb mewn dylanwadu ar ddyfodol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Diolch am ddarllen yr ymgynghoriad hwn ar ein themâu strategol arfaethedig ac rydym yn gobeithio y byddwch yn manteisio ar y cyfle i roi gwybod i ni beth yw eich barn.

Mae nyrsys a bydwragedd ledled y DU a bellach cymdeithion nyrsio yn Lloegr ymhlith y proffesiynau y mae'r cyhoedd yn eu trysori fwyaf. Mae ein rôl fel rheoleiddiwr proffesiynol yn un bwysig. Rydym yn cydnabod y cyfrifoldeb sydd gennym i helpu i gynnal y safonau uchel y mae nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio am eu darparu ac mae gan bobl bob hawl i'w disgwyl.

Rydym yn uchelgeisiol ar gyfer dyfodol yr NMC a'r proffesiynau rydym yn eu rheoleiddio. Rydym am gefnogi nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio i wneud mwy o wahaniaeth fyth er budd pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ym mhob lleoliad. Mae hynny'n golygu canolbwyntio ein hymdrechion ar gyflawni ein rôl reoleiddio mor effeithlon ac effeithiol â phosibl, a defnyddio'r cyfleoedd a welwn i ychwanegu mwy o werth lle mae modd i ni wneud hynny.

Rydym yn gweithio ar ran y cyhoedd ac mae angen i ni gael eu hyder nhw yn ogystal â hyder y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr, ein partneriaid a'n cydweithwyr yn yr NMC i sicrhau bod ein huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol yn cael eu deall, eu rhannu a'u cefnogi. Dyna pam, ers mis Ebrill, rydym wedi bod yn gwrandao ar eich barn am y materion allweddol sy'n wynebu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, eu heffaith ar nyrsio a bydwreigiaeth, a beth mae hynny'n ei olygu i ddyfodol yr NMC.

Mae'r safbwyntiau hynny wedi helpu i lywio'r themâu strategol a nodir yn y ddogfen hon. Mae hwn yn sicr yn waith sy'n mynd rhagddo. Mewn cyn lleied o amser, rydyn ni'n gwybod na fyddwn ni wedi cael popeth yn iawn. Efallai ein bod wedi colli rhywbeth pwysig neu efallai ein bod wedi gosod ein golygon yn rhy uchel. Mae angen eich help chi arnom nawr i brofi ac i herio'r themâu strategol hyn fel y gallwn bennu cyfeiriad priodol y sefydliad ar gyfer 2020–2025 a'r blaenoriaethau penodol y byddwn yn eu dilyn. Rydym yn agored iawn i'r her honno ac rydym yn gobeithio clywed gan gynifer ohonoch â phosibl dros y 12 wythnos nesaf.

Ein huchelgais yw dylanwadu ar arferion nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio er mwyn darparu'r gofal rydym i gyd ei eisiau - gofal diogel, effeithiol a charedig. Dim ond os byddwn yn cydweithio â'r cyhoedd, gweithwyr proffesiynol, partneriaid a chydweithwyr yn y gwasanaeth nyrsio a bydwreigiaeth i gytuno ar ein strategaeth 2020 – 2025 (ac yna ei chyflawni wrth gwrs) y bydd modd i ni wireddu'r uchelgais honno. Diolch am helpu i benderfynu ar **#ddyfodolNMC**

Gyda'n dymuniadau gorau

Philip Graf

Cadeirydd

Andrea Sutcliffe

Prif Weithredwr a Chofrestrydd



Cyflwyniad


Ers mis Ebrill 2019, mae aelodau o'r cyhoedd, gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr, sefydliadau eraill rydym yn gweithio gyda nhw a'n cydweithwyr yn yr NMC wedi dweud wrthym beth maen nhw'n ei feddwl sy'n bwysig dros y cyfnod sydd o'n blaenau.

Rydym hefyd wedi bod yn casglu tystiolaeth am yr heriau a'r cyfleoedd y gallem eu hwynebu. O hyn, rydym wedi datblygu pum thema strategol. Dyma'r meysydd rydym yn credu bod gennym y cyfle mwyaf i wella ein gwaith rheoleiddio ein hunain ac adeiladu ar hyn, yn ogystal â chefnogi gwelliannau yn y system ehangach. Ar y cam hwn, mae cwmbras posibl y gweithgarwch a awgrymir yn fawr. Yn ystod y cyfnod ymgynghori byddwn yn nodi'r blaenoriaethau craidd a brys. Mae Ffigur 1 yn nodi ein llinell amser.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r hyn rydym wedi'i glywed hyd yma ac o'r sbardunau strategol allweddol a nodwyd

gennym. Mae'n rhoi cyfle i chi roi sylwadau ar ein gweledigaeth a'n themâu drafft. Mae manylion sut i gyflwyno adborth ar ddiwedd y ddogfen. Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw 16 Hydref 2019.

O fis Hydref ymlaen, byddwn yn datblygu ein strategaeth derfynol ac yn dechrau gweithio ar y cynllun busnes a fydd yn ein helpu i weithredu ein hamcanion. Bydd y Cyngor yn cymeradwyo'r strategaeth ym mis Mawrth 2020 i'w rhoi ar waith o fis Ebrill y flwyddyn nesaf ymlaen.



Pwy ydyn ni a beth rydyn ni'n ei wneud

Ni yw'r rheoleiddiwr proffesiynol ar gyfer nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio. Ni sy'n cadw'r gofrestr o nyrsys a bydwagedd sy'n cael ymarfer yn y DU, a chymdeithion nyrsio sy'n cael ymarfer yn Lloegr.

Mae'r bobl ar ein cofrestr yn darparu gofal mewn amrywiaeth eang o leoliadau gan gynnwys ysbytai, meddygfeydd, cartrefi gofal, unedau mamolaeth, gwasanaethau cymunedol, carchardai, ac mewn addysg. Ar draws y tri phroffesiwn, maent yn cyffwrdd pawb bron yn y system iechyd a gofal; pobl o bob oedran sydd ag anghenion iechyd corfforol a meddyliol.

Ein pwrpas yw dylanwadu ar arferion nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio er mwyn darparu'r gofal rydym i gyd ei eisiau – gofal diogel, effeithiol a charedig.

Rydym yn gweithio gyda'r gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr drwy gydol eu gyrfaedd i sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth, y sgiliau a'r gwerthoedd i ddarparu gofal cyson, o ansawdd, sy'n cadw pobl yn ddiogel.

Ar yr adegau prin pan fo gofal yn mynd o'i le, rydym yn camu i mewn i ymchwilio a gweithredu pan fo angen. Rydym yn gweithio i hyrwyddo diwylliant cyfiawn, i annog gweithwyr proffesiynol i fod yn agored a dysgu o gamgymeriadau, i roi llais i bobl y mae gofal gwael yn effeithio arnynt, gan drin pawb dan sylw â charedigrwydd a dealltwriaeth.

Nid ydym yn cynrychioli nyrsys, bydwagedd na chymdeithion nyrsio – mae yna gyrff

eraill sy'n chwarae'r rôl honno. Nid ydym yn rheoleiddio lleoliadau iechyd a gofal, nac yn comisiynu lleoedd hyfforddi – ond rydym yn gweithio'n agos gyda'r sefydliadau ym mhob un o bedair gwlad y DU sy'n gwneud y gwaith pwysig hwn. Hefyd, nid oes gennym rôl o ran ariannu hyfforddiant na datblygiad proffesiynol parhaus, ac nid oes gennym unrhyw bwerau i reoleiddio cyflogwyr.

Fodd bynnag, byddwn yn ceisio dylanwadu ar eraill i sicrhau bod gan y bobl ar ein cofrestr yr addysg, yr adnoddau a'r cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i bobl, yn ogystal â defnyddio ein harbenigedd a'n dylanwad i gefnogi a datblygu gweithlu iechyd a gofal y dyfodol.



Ein cyfrifoldebau rheoleiddio:

1. Rydym yn cynnal y gofrestr o nyrsys a bydwagedd sy'n bodloni'r gofynion ar gyfer cofrestru yn y DU a'r cymdeithion nyrsio sy'n bodloni'r gofynion ar gyfer cofrestru yn Lloegr.

In March 2019
there were:

653,544
Nurses

36,916
Midwives

7,288
Nurses & Midwives


489
Nursing Associates

on our register.

**A total of
698,237** 

[compared with
690,278 in 2018]

Country of Registration



In 2018–2019 we
processed over 30,623
new applications
for registration.

23,498
 were from
applicants
trained in the **UK**

968 
were from
those trained
in the **EU/EEA**

6,157 
were from
applicants trained
outside the EU/EEA

2. Rydym yn pennu'r gofynion ar gyfer y rhaglenni addysg proffesiynol sy'n cefnogi pobl i ddatblygu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ymddygiad sy'n ofynnol er mwyn cael mynediad at ein cofrestr neu wneud nodiadau arni. Ym mis Mawrth 2019, roedd 83 o sefydliadau addysg cymeradwy (SACau) yn cyflwyno 938 o raglenni cymeradwy.
3. Rydym yn llywio ymarfer y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr drwy ddatblygu a hyrwyddo safonau gan gynnwys ein Cod, ac rydym yn hyrwyddo dysgu gydol oes drwy ailddilysu, gan annog gweithwyr proffesiynol i fyfyrio ar eu hymarfer a sut mae'r Cod yn berthnasol i'w gwaith o ddydd i ddydd.
4. Pan gaiff pryderon difrifol am ymddygiad neu arfer nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio eu codi, gallwn ymchwilio i'r mater, ac os bydd angen, cymryd camau i ddiogelu'r cyhoedd. Dim ond mewn nifer fach iawn o achosion y mae'n rhaid i ni wneud hyn. Yn 2018–2019 codwyd 5,373 o bryderon newydd gyda ni, sy'n cynrychioli dim ond wyth pryder am bob 1,000 o bobl ar y gofrestr. Yn yr un flwyddyn, cafodd nifer cymharol fach, 162, eu dileu o'r gofrestr yn y pen draw.

Beth yr ydym wedi'i glywed hyd yma?

Rhwng mis Ebrill a dechrau mis Mehefin 2019, dywedodd dros 2,500 o bobl wrthym yr hyn y credant y dylai'r NMC ganolbwyntio arno dros y pum mlynedd nesaf. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion a gawsom gan bobl ar ein cofrestr, ond clywsom hefyd gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, cleifion ac aelodau'r cyhoedd, sefydliadau partner a'n cydweithwyr yn yr NMC.

Ar ben hynny, yn gynharach eleni fe wnaethom gynnal ymchwil cynulleidfa a rhanddeiliaid i ddarganfod yr hyn y mae ein cofrestryddion, y cyhoedd, partneriaid, a'n cydweithwyr yn yr NMC yn ei ddisgwyl o ran iechyd a gofal a gennym ni fel rheolydd proffesiynol. Roedd hyn yn cynnwys cyfweiliadau, grwpiau ffocws ac arolwg ar-lein o dros 2,800 o gofrestryddion a 2,000 o aelodau o'r cyhoedd. Y negeseuon allweddol o'r holl waith ymgysylltu hwn oedd:

Gan y cyhoedd:

- Defnyddiwch eich dylanwad i wneud yn siŵr bod nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio yn cael yr amser a'r cyfle i ddarparu gofal da.
- Peidiwch â monitro safonau gofal yn unig, helpwch i'w gwella.
- Gweithredwch yn garedig ac yn effeithiol, gan hyrwyddo diwylliant o ddidwylledd a dysgu.
- Dysgwch gan "arbenigwyr yn ôl profiad" – helpwch ni i'ch helpu chi.

Gan nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio:

- Defnyddio eich dylanwad i wneud yn siŵr bod nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio yn cael yr amser a'r cyfle i ddarparu gofal da.
- Gwneud yr hyn a allwch i gyfrannu at fynd i'r afael â heriau'r gweithlu.
- Datblygu perthynas agosach a mwy cefnogol â'r bobl ar eich cofrestr a byddwch yn gliriach am yr hyn yr ydych yn ei wneud i gefnogi arfer da, yn ogystal â mynd i'r afael ag arfer gwael.
- Hyrwyddo dealltwriaeth a gwerthfawrogiad gwell o'r gwaith y mae nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio yn ei wneud.
- Mae angen cyfleoedd o safon arnom i ddysgu ac i ddatblygu er mwyn mynd bob yn gam, ac ymgymryd â ffyrdd newydd o ddarparu gofal.

¹ <https://www.nmc.org.uk/globalassets/sitedocuments/shaping-the-future/exploring-stakeholder-views-nmc.pdf>

Gan ein partneriaid:

- Parhau i wella a gwneud eich busnes craidd yn dda.
- Dangos dealltwriaeth ac ymgysylltiad ymysg nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio, pob un o'r pedair gwlad a'r gwahanol sectorau a lleoliadau.
- Cydweithio â ni i sbarduno gwelliant ehangach ar draws iechedd a gofal – gan gynnwys mynd i'r afael â heriau presennol y gweithlu.

Gan ein cydweithwyr:

- Rhoi'r grym i ni gyflawni ein gweledigaeth: yr hawliau cywir, yr adnoddau, y penderfyniadau i greu sefydliad rydym yn falch o weithio iddo.
- Blaenoriaethu'n drylwyr a rheoli newid yn dda.
- Gwneud mwy o gynnydd a hynny'n gyflymach gyda'n data a'n deallusrwydd – gallwn weld y potensial.
- Cefnogi a datblygu diwylliant sy'n gyson â'n gwerthoedd, gan gynnwys caredigrwydd.

Siaradodd llawer o nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio â ni am gyflogau ac amodau. Er nad yw'r rhain yn ein cylch gwaith, gallwn rannu eu safbwyntiau ag eraill a byddwn yn gwneud hynny.

Yr heriau strategol sy'n wynebu'r NMC a'r rheini ar ein cofrestr

Mae llawer o elfennau gwyb am fod yn nyrs, bydwraig, neu gydymaith nyrsio. Mae'r cyhoedd yn ymddiried yn ein gweithwyr proffesiynol ac yn eu parchu, a chydabyddir eu bod yn gwneud cyfraniad allweddol i'r gwaith o ddarparu iechyd a gofal.

Mae cyfleoedd cyfoethog ar gael i weithio mewn gwahanol leoliadau, fel rhoddwr gofal, cydgysylltydd gofal, arweinydd, hyrwyddwr iechyd, athro, neu ymchwilydd. Ond mae'r amgylchedd y mae'r bobl ar ein cofrestr yn gweithio ynddo yn dod yn fwyfwy heriol. Mae hyn yn rhoi cydestun pwysig i'n strategaeth yn y dyfodol.

Prinder gweithlu

Drwy ein harolwg ar-lein ac mewn trafodaethau, mae'r bobl ar ein cofrestr yn dweud wrthym fod prinder gweithlu yn dod yn fwy a mwy o fygythiad i'w gallu i ddarparu gofal o ansawdd uchel. Mae hyn yn broblem ar draws y DU (ond i wahanol raddau) ac o bryder rhyngwladol cynyddol. Yn y DU, mae'r darlun yn amrywio o fewn ac ar draws ardaloedd. Mae nyrsys ardal, nyrsys anabledd dysgu a nyrsys iechyd meddwl yn wynebu anawsterau penodol. Mae problemau hefyd o ran denu staff i ardaloedd anghysbell a gwledig. Mae darpar ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd yn debygol o greu heriau ychwanegol i'r gweithlu. Rydym eisoes wedi gweld gostyngiad anhygoel yn nifer y bobl sy'n recriwtio o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd ac efallai y bydd yn annog mwy o bobl sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal o'r gwledydd hynny i ddychwelyd adref. Mae pryderon penodol ym maes gofal cymdeithasol.

O safbwynt yr NMC, mae prinder gweithlu yn cael nifer o effeithiau niweidiol. Yn gyntaf, gall beryglu ansawdd y gofal a all gael effaith ddinistriol ar bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalmwyr. Yn ail, gall swyddi gwag osod beichiau diangen ar staff sy'n achosi iddynt orflino a gadael eu rolau neu yn wir, gadael eu proffesiwn. Rydym wedi clywed bod hon yn broblem benodol i bobl yn gynnar yn eu gyrfaedd. Yn drydydd, mae lleoliadau iechyd a gofal yn chwarae rhan bwysig yn addysg y genhedlaeth nesaf o nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio. Os yw'r staff yn brin gall gofal a dysgu fod dan fygythiad, a gallai'r amgylchedd dysgu ymarferol annog myfyrwyr i beidio â dilyn gyrfa o'u dewis.



“ Tra mae ein poblogaeth yn tyfu ac yn byw yn hirach, mae angen i system y GIG newid a datblygu i ddal i fyny â hyn. Yn anffodus mae'r lefelau staffio yn mynd i'r cyfeiriad arall o ran yr hyn sydd ei angen, gan adael nyrsys wedi blino'n lân ac wedi chwythu eu plwc, sydd yn ei dro yn achosi mwy o strae'n ar nyrsys ac yn gwneud iddynt adael y proffesiwn. ”

Gweithiwr proffesiynol ar ein cofrestr, Gogledd Iwerddon

Anghenion gofal mwy cymhleth


Mae llawer ohonom yn byw yn hwy, yn aml â nifer o gyflyrau, boed hynny'n gorfforol ac yn feddyliol, ac weithiau yn byw mewn amgylchiadau cymdeithasol anodd.

Mae niferoedd cynyddol o enedigaethau cymhleth hefyd. Mae'r gyfradd newid yn sylweddol, er enghraifft - gweler ffigur un. Mae hyn yn dangos bod nifer y bobl sy'n cael eu derbyn i ysbyty â chyflyrau cronig lluosog megis diabetes a methiant y galon wedi codi 60 y cant mewn dim ond 10 mlynedd, bron

bedair gwaith yn fwy na chyfradd y cynnydd i bobl ag un cyflwr cronig, a bron ddwywaith cynnydd yn y gyfradd dderbyn gyffredinol. Mae'r ffigurau hyn yn berthnasol i Gymru, ond caiff y duedd hon ei hadlewyrchu ar draws pedair gwlad y DU.

Mae Rise yn gyflyrau cronig yng Nghymru

Derbyniadau ysbyty i bobl sydd ag o leiaf gyflwr cronig, 2004/05 - 2014/15, mynegai = 2004/05



Ffynhonnell: Dadansoddiad y Sefydliad Iechyd yn [The path to sustainability](#)²

Mae'r gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr angen yr arbenigedd i reoli cymhlethdodau cynyddol, i helpu pobl i wneud penderfyniadau da am eu hiechyd eu hunain ac i reoli eu cyflyrau eu hunain lle bo hynny'n briodol. Daw rhai o'r cyfleoedd gorau i wella iechyd gyda phobl yn cymryd mwy o reolaeth dros eu hiechyd a'u gofal eu hunain. Bydd rhai pobl yn arbenigwyr ar eu cyflyrau eu hunain a byddant am gael cymorth i gael triniaeth neu

driniaeth benodol. Bydd eraill am gael help i asesu risgiau a manteision gwahanol lwybrau gofal. Mae'r berthynas rhwng gweithwyr proffesiynol a'r bobl y maent yn eu cefnogi yn newid. Mae mwy o angen i weithwyr proffesiynol weithredu fel hwylusydd a phartner mewn gofal, gan gydnabod yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd gan bobl o'u cyflyrau a'u hamgylchiadau eu hunain.

² <https://www.health.org.uk/publications/reports/the-path-to-sustainability>



Datblygiadau meddygol a thechnolegol

Mae arloesedd ym maes genomeg a thechnolegau meddygol eraill wedi bod yn gyflym iawn hefyd. Mae mwy a mwy o ddibyniaeth ar offer digidol i fonitro amodau a chefnogi'r broses o wneud penderfyniadau clinigol. Yn y dyfodol, gall deallusrwydd artiffisial fod yn sail i lawer o'r adnoddau digidol hyn.

“ Heddiw ac yfory, bydd defnyddio deallusrwydd artiffisial (AI) yn cyflwyno sawl her sylweddol, ac mae'n hanfodol bod strategaeth yr NMC yn rhagweithiol wrth asesu a mynd i'r afael â'r materion moesegol y gallai defnyddio AI a roboteg eu hachosi i'r nyrs neu'r fydwraig. ”

David Benton, Prif Weithredwr y Cyngor Cenedlaethol
Byrddau Nyrsio Gwladol (NCSBN)

Ar draws pedair gwlad y DU, mae technolegau digidol yn dod yn rhan annatod o ymarfer clinigol. Mae hyn yn newid y ffordd y mae gofal yn cael ei ddarparu ac yn newid y sgiliau clinigol a rhyngbersonol sy'n ofynnol gan weithwyr proffesiynol. Un rôl bwysig i weithwyr proffesiynol fydd sicrhau nad yw anghydraddoldebau iechyd yn gwaethygu i bobl nad ydynt o bosibl yn gallu cael gafael ar wybodaeth iechyd a'i dehongli heb gymorth.

Mae mwy a mwy yn cydnabod budd disgyblaethau ehangach fel gwyddor ymddygiad a ffactorau dynol i iechyd a gofal ac mae'n bwysig bod nyrsys, bydwragedd a

chymdeithion nyrsio yn gallu manteisio ar ddatblygiadau yn y meysydd hyn yn ogystal â gwybodaeth glinigol newydd.

Mae'r cyd-destun cyfnewidiol hwn yn golygu ei bod yn bwysicach nag erioed bod y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr yn cael cyfleoedd dysgu gydol oes o ansawdd uchel, er mwyn iddynt allu addasu eu hymarfer i ystyried yr wybodaeth a'r meddylfryd diweddaraf yn ein maes, a llunio'r dyfodol. Bydd methu galluogi dysgu gydol oes ar gyfer ein proffesiynau yn rhoi dyheadau ehangach o ran dyfodol iechyd a gofal yn y fantol.

Modelau gofal newidiol

Mae modelau newydd o ofal integredig a chymunedol yn cael eu datblygu ledled y DU. Caiff llawer ohonom ofal gartref am gyflyrau a fyddai wedi golygu aros mewn ysbyty yn y gorffennol. Mae monitro o bell, a thechnolegau digidol eraill yn annog y duedd hon ymhellach. A phan fyddwn yn cael ein derbyn i'r ysbyty, mae ein hanghenion gofal yn llawer uwch. Mae'r tueddiadau hyn yn newid y sgiliau sydd eu hangen mewn

gwahanol leoliadau ac yn newid y ffordd y mae gweithwyr proffesiynol yn gweithio. Mae pobl yn aml yn gweithio mewn timau amlddisgyblaethol sy'n sicrhau manteision i bobl sy'n derbyn gofal ond gall ychwanegu cymhlethdod at brosesau llywodraethu a gwneud penderfyniadau. Bydd gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal yn cefnogi mwy a mwy o bobl gartref sy'n peri risg gymharol o ynysu clinigol.

Llwybrau gyrfa a phatrymau gweithio newydd

Ni allwn gymryd yn ganiataol y bydd pobl yn dod i mewn ac yn gwneud cynnydd yn ein proffesiynau fel oedd yn digwydd ar un adeg. Ni fydd tair blynedd o addysg amser llawn yn addas i bawb a allai fod yn anelu at ymuno â'n cofrestr. Mae angen opsiynau gweithio hyblyg arnom i ddiwallu anghenion pawb y mae cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith yn bwysig iddynt, yn enwedig pan fydd y rhan

fwyaf o bobl ar ein cofrestr yn fenywod, y mae gan lawer ohonynt gyfrifoldebau gofalu. Bydd llai o bobl yn ymuno â'n proffesiynau gan eu hystyried yn 'swyddi am oes' – efallai y byddant yn gwneud rhywbeth arall yn gyntaf neu'n gadael oni allant gael yr amrywiaeth neu'r cydbwysedd y maent yn dymuno ei gael.

“ Mae rheoli pobl â chyflyrau hirdymor yn y gymuned, gan gynnwys rheoli anabledd dysgu ac iechyd meddwl, yn gofyn cael gweithlu cydgysylltiedig llawer mwy medrus rhwng maes iechyd a gofal cymdeithasol. ”

Gweithiwr proffesiynol ar ein cofrestr, Lloegr





“ Nid yw nyrsys â phlant yn cael yr hyblygrwydd o ran gofal plant, felly mae mwy o nyrsys naill ai’n dewis gwaith asiantaeth neu’n dewis gyrfa arall. ”

Gweithiwr proffesiynol ar ein cofrestr, Lloegr

Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Nid yw'r sector iechyd a gofal yn ddiogel rhag yr anghydraddoldebau sy'n bodoli yn ein cymdeithas. Mae tystiolaeth frawychus o anghydraddoldeb cynyddol a gwrthdroi rhai tueddiadau cadarnhaol, gan gynnwys disgwyliad oes. Rydym yn fwy ymwybodol o effaith andwyol anfanteision lluosog, sy'n gwaethygu gydag effaith caledi ar wasanaethau ehangach sy'n mynd i'r afael â materion fel tai, a thrais domestig.

Gall yr NMC ddylanwadu'n gadarnhaol drwy lunio arfer pobl ar ein cofrestr, drwy'r sgiliau a'r wybodaeth yn ein safonau hyfedredd a'r ymrwymïadau moesegol a nodir yn ein Cod. Gallwn hefyd roi cipolwg ar brofiadau cofrestryddion sydd â nodweddion gwarchodedig drwy rannu ein data a'n hymchwil er mwyn amlygu a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

Argyfwng hinsawdd a materion cynaliadwyedd

Mae pobl sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd a gofal yn poeni mwy a mwy am yr effaith amgylcheddol. Mae ffactorau fel ansawdd aer, eithafion tywydd a ffyrdd o fyw heb ddigon o ymarfer corff yn cynyddu'r galw am wasanaethau ac rydym i gyd yn fwy ymwybodol o ble daw cynhyrchion, sut y cânt eu gwneud a beth sy'n digwydd iddynt pan fyddwn wedi gorffen gyda nhw.

Gall nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio ddisgwyl i bryderon amgylcheddol fod yn amlycach lle maent yn gweithio ac ymhlith y bobl y maent yn gofalu amdanynt.

Newid dulliau rheoleiddio

Mae astudiaeth ryngwladol ddiweddar wedi edrych ar effaith bosibl y tueddiadau sy'n effeithio ar reoleiddio yn ein sector. Mae'r ddibyniaeth gynyddol ar dimau yn hytrach nag unigolion i ddarparu gofal, natur amlffactoraidd llawer o fethiannau mewn gofal, a mwy a mwy o staff yn symud, yn golygu bod cydweithredu rheoleiddiol, ar draws disgyblaethau, lleoliadau ac yn ddaearyddol, yn dod yn bwysicach. Mae cyfleoedd rheoleiddio sylweddol hefyd o'r 'trosoledd gorau' o ddata. Yn y pen draw, dylai'r ddwy duedd hon sbarduno gwell diogelwch ac ansawdd.

Ar 9 Gorffennaf 2019 cyhoeddodd y Llywodraeth Hyrwyddo Proffesiynoldeb, Diwygio Rheoleiddio [link] - ei hymateb i'r ymgynghoriad yn 2017 – 2018 ar ddiwygio rheoleiddio. Rydym wedi nodi ei ffocws, ymhlith pethau eraill, ar reoleiddio mwy ymatebol ac atebol ac rydym wedi ymrwymo i ystyried ei chanfyddiadau wrth ddatblygu ein strategaeth arfaethedig.

³ Benton & Alexander (2017) Journal of Nursing Regulation
Cyfrol 8, Rhifyn 2, Atodiad, Gorffennaf 2017, Tudalennau S3-S4



NMC – cyflawniadau dros y pum mlynedd diwethaf

Bydd yr hyn a wnawn nesaf yn adeiladu ar gynnydd a gwelliant sylweddol sydd eisoes ar waith yn yr NMC. Yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, rydym wedi:

- Cwblhau cylch cyntaf o brosesau ailddilysu ar gyfer pawb ar ein cofrestr, gan gomisiynu gwerthusiad i asesu'r effaith ac i lywio'r camau nesaf.
- Cyflwyno dulliau rheoleiddio cymdeithion nyrsio yn Lloegr. Agorodd ein rhan newydd o'r gofrestr ar gyfer cymdeithion nyrsio ar ddiwedd mis Ionawr 2019 ac erbyn diwedd mis Mehefin, roedd dros 1,000 o bobl wedi cofrestru fel cymdeithion nyrsio
- Cyhoeddi safonau newydd wedi'u seilio ar ganlyniadau ar gyfer nyrsys a chymdeithion nyrsio, gyda safonau newydd ar gyfer bydwagedd yn cael eu datblygu, sy'n ceisio paratoi pobl ar ein cofrestr â'r wybodaeth, y sgiliau a'r gwerthoedd y bydd eu hangen arnynt ar gyfer ymarfer yn y dyfodol a chaniatáu mwy o amrywiaeth o ran cyfleoedd lleoliadau
- Safonau dychwelyd i ymarfer newydd sy'n caniatáu i bobl ddychwelyd yn haws ar ôl seibiant gyrfa
- Cyflwyno ymagwedd strategol newydd tuag at addasrwydd i ymarfer sy'n annog gweithredu lleol lle bo'n ymarferol, yn hwyluso ymgysylltu cynnar ac yn cymryd gofal gwell o bawb sy'n ymwneud ag achosion. Mae hyn eisoes yn lleihau'r angen i achosion symud ymlaen i wrandawriad terfynol. Mae ein gwasanaeth cymorth cyhoeddus newydd yn ein helpu ni i sicrhau bod pobl sy'n ymwneud ag achosion yn cael y cymorth ymarferol ac emosiynol sydd ei angen arnynt a'u bod yn gallu cyfrannu adborth i wella ein gwaith
- Gwella ein dull o gofrestru pobl sydd wedi'u hyfforddi dramor, mewn ymateb i adborth yr ymgeiswyr a'r cyflogwyr. Dengys ein data cofrestru diweddaraf fod maint cyffredinol y gofrestr wedi tyfu ers mis Mawrth y llynedd – tua 8,000 yn fwy. Ysgogwyd hyn yn rhannol gan gynnydd yn nifer y bobl o'r tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a ymunodd â'n cofrestr yn dilyn y newidiadau a wnaethom i symleiddio ein system a chefnogi ymgeiswyr yn well drwy'r broses.

Ffigur 2: Ein hymagwedd newydd at addasrwydd i ymarfer



Er gwaethaf y cynnydd sylweddol hwn, rydym yn gwybod bod gennym ragor i'w wneud i fod yn rheoleiddiwr sy'n perfformio'n gyson uchel, yn gyflogwr o ddewis, ac yn ddarparwr gwasanaeth rhagorol yn ein holl ddulliau rhyngweithio â phobl y mae'r hyn a wnawn yn effeithio arnynt.

⁴ <https://www.nmc.org.uk/globalassets/sitedocuments/other-publications/nmc-register-data-march-19.pdf>



Ein themâu strategol a'n gweledigaeth ddrafft

Yn yr adran hon rydym yn disgrifio ein gweledigaeth ddrafft, ein themâu strategol. Mae ein gweledigaeth lefel uchel ar gyfer yr NMC, fel y'i mynegir ar hyn o bryd, wedi ei nodi isod. Wrth i ni ddatblygu ein strategaeth, rydym yn disgwyl mireinio hyn, ochr yn ochr â'r themâu a'r gwerthoedd strategol.

Ein gweledigaeth ddrafft

“Rheolydd proffesiynol blaengar sy'n chwarae rhan flaenllaw wrth annog gofal gwell, mwy diogel, a diwylliant dysgu mwy cyfiawn i bawb.”

Cwestiwn yr ymgynghoriad:

Beth yw eich barn chi am y weledigaeth hon?

cytuno'n gryf cytuno niwtral anghytuno anghytuno'n gryf ddim yn siŵr

Dweud eich dweud nmc.org.uk/shapingthefuture





Ein themâu strategol drafft

Rydym wedi nodi pum thema strategol fel meysydd i'w trafod yn ystod y cyfnod ymgynghori. Rydym yn cydnabod eu bod yn dibynnu ar ei gilydd, a bod rhywfaint o orgyffwrdd rhyngddynt. Fodd bynnag, gobeithiwn y byddant yn ysgogi pobl i feddwl. Mae ffigur X yn rhoi trosolwg o'r pum thema a'n nodau strategol.



Ffigur 3. Trosolwg o'r pum thema a'n nodau strategol.

1. Dull deinamig o lunio arferion



Mae angen i ni sicrhau ein bod yn ymateb i fodelau gofal sy'n newid a ffyrdd newydd o weithio (o fewn disgyblaethau a rhyngddynt) ar draws pedair gwlad y DU.

“ Dylem gynnwys hyblygrwydd mewn strategaeth reoleiddiol i alluogi rheoleiddio i ymateb i newid. Mae pob sector yn esblygu dros amser, o ganlyniad i ystod o ddylanwadau gwahanol. Rhaid peidio â gadael i reoleiddwyr reoli argyfyngau'r gorffennol, gan anwybyddu neu fethu ymateb i dystiolaeth newydd sy'n galw am newid. ”

Awdurdod Safonau Proffesiynol, Right Touch Regulation Revised, 2015

Mae angen penodol i gytuno ar ein dull o ymdrin ag ymarfer arbenigol (gan gynnwys ymweliadau iechyd a nyrsio cymunedol) a'i ddiweddarau. Mae dadl gynyddol hefyd ynghylch a oes angen rheoleiddio ar gyfer ymarfer uwch, o ystyried y ffaith bod ymagweddau at ymarfer uwch ar draws pedair gwlad y DU ar wahanol gamau o ran aeddfedrwydd.

Rydym hefyd wedi clywed bod angen mwy o gefnogaeth ar nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio ar ddechrau eu gyrfaedd.

“ Dylai'r NMC ystyried safoni'r cyfnod preceptoriaeth. Bydd hyn yn gyfrifol am y gwahaniaeth rhwng nyrsys a bydwagedd sydd newydd gymhwyso yn gadael neu'n aros yn eu proffesiynau. ”

Greta Westwood, Prif Swyddog Gweithredu Sefydliad Florence Nightingale⁵

⁵ <https://www.nmc.org.uk/news/news-and-updates/blog-strengthening-our-voice-to-lead/>

Blaenoriaethau posibl

- 1.** Archwilio ffyrdd o ddiweddarau safonau'n barhaus yn hytrach nag adolygu'r safonau ar raddfa fawr yn anaml. Creu dulliau ar gyfer ymgysylltu parhaus mwy systematig gyda'n cofrestryddion a'r cyhoedd – i sicrhau bod ein safonau yn cadw ar yr un cyflymder ag amgylchedd sy'n newid yn gyflym.
- 2.** Archwilio'r dulliau rheoleiddio posibl ar gyfer arfer arbenigol a/neu uwch, gan gynnwys a ddylid cael ymagweddau cyffredin ar draws nifer o broffesiynau.
- 3.** Ar sail y gwerthusiad o'r cylch tair blynedd llawn cyntaf o'r broses ailddilysu, bwrw ymlaen â newidiadau i sicrhau bod ailddilysu yn parhau i gefnogi arfer gorau a dysgu ar ôl cofrestru.

Manteision posibl

- Cefnogi pobl i roi gofal da yng nghyd-destun arloesi mewn gwasanaethau a'r gweithlu.
- Mynegi safonau cyson yn glir ac ysbrydoli llwybrau gyrfa ar gyfer nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio.

Cwestiwn yr ymgynghoriad:

Rhestrwch y blaenoriaethau hyn yn nhrefn eu pwysigrwydd?

Ile 1 yw'r pwysicaf a 3 yw'r lleiaf pwysig.

A oes unrhyw flaenoriaethau ar goll?

Dweud eich dweud www.nmc.org.uk/shaping-the-future-consultation

2. Adeiladu ein perthynas â'r cyhoedd



Mae gennym ddyletswydd statudol i hyrwyddo ac i gynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau, a gwyddom o brofiad fod cynnwys y cyhoedd yn gwella ein gwaith.

Mae lle i ni gynyddu cyfleoedd ystyrllon i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal i ddylanwadu ar ein gwaith. Mae angen i ni sicrhau bod y cyfle hwn ar gael i gynifer o bobl ag sy'n bosibl. Mae'r ffordd yr ydym yn trin pobl sy'n mynegi pryderon wrthym yn effeithio ar hyder y cyhoedd ynom ni fel rheoleiddiwr hefyd.

“ Rhaid i reoleiddwyr ymgysylltu â chleifion a defnyddwyr gwasanaethau, sicrhau eu bod yn cael gwybod am y broses a'r cynnydd, a dadansoddi a chymryd eu tystiolaeth o ddifrif er mwyn iddynt nodi problemau'n briodol a sicrhau hyder y cyhoedd. ”

Adolygiad Lessons Learned, 2018

“ Adeiladu ar y gwaith hyd yma i adennill hyder y cyhoedd. Bod yn dryloyw, yn agored, yn gydweithredol, yn atebol... cyflwyno gwybodaeth mewn ffyrdd sy'n cefnogi'r proffesiynau ond sy'n caniatáu i'r cyhoedd weld a deall beth mae'r NMC yn ei wneud. ”

Gweithiwr proffesiynol ar ein cofrestr, Lloegr

Blaenoriaethau posibl

- 1.** Datblygu ystod eang o gyfleoedd i'r cyhoedd gymryd rhan yn ein gwaith, gan chwilio am adborth ar sut y gallem wella a gweithredu arno.
- 2.** Sicrhau bod rôl yr NMC yn cael ei hegluro yn ein dulliau cyfathrebu a gwella hygyrchedd ein gwefan.
- 3.** Sicrhau bod cefnogaeth emosiynol ac ymarferol ar gael i'r cyhoedd bob amser pan fyddant yn cymryd rhan yn ein gwaith.

Manteision posibl

- Gwell profiad a chanlyniadau i bobl sydd wedi profi methiannau o ran gofal.
- Gwell dealltwriaeth gyhoeddus o waith nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio.
- Cynyddu ein hymatebolrwydd i'r bobl sy'n derbyn gofal gan ein cofrestryddion.

Cwestiwn yr ymgynghoriad:

Rhestrwch y blaenoriaethau hyn yn nhrefn eu pwysigrwydd?

lle 1 yw'r pwysicaf a 3 yw'r lleiaf pwysig.

A oes unrhyw flaenoriaethau ar goll?

Dweud eich dweud www.nmc.org.uk/shaping-the-future-consultation



3. Cryfhau'r berthynas â'n proffesiynau



Mae angen i'r NMC ganfod cydbwysedd rhwng sicrhau cywirdeb yn ein dulliau gweithredu rheoleiddiol gan annog diwylliant cyfiawn o degwch, didwylledd a dysgu. Mae myfyrwyr a chofrestryddion wedi dweud wrthym fod eu teimladau am yr NMC yn cael eu dylanwadu'n fawr gan ein rôl mewn addasrwydd i ymarfer.

Er mai dim ond ar niferoedd bach iawn o weithwyr proffesiynol y bydd hyn yn effeithio arnynt byth, mae'r posibilrwydd o sancsiwn yn gysgod arnynt ac yn dylanwadu ar eu barn am yr NMC. Mae risg bod yr hinsawdd hon yn tanseilio didwylledd a dysgu, ac rydym yn bwriadu gwella ein dull addasrwydd i ymarfer newydd. Gallwn wneud mwy i fynd i'r afael â'r canfyddiad hwn o'r NMC.

“ Dylai'r NMC adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi dechrau â'u strategaeth addasrwydd i ymarfer (FtP), wrth ddatblygu strategaeth newydd yr NMC, sy'n cydnabod pwysigrwydd 'ffactorau dynol'. ”

Roger Kline, cymrawd ymchwil yn Ysgol Fusnes Prifysgol Middlesex ⁶

Mae'r bobl ar ein cofrestr hefyd yn disgwyl i ni ddangos ein bod yn deall eu proffesiynau neilltuol, eu harbenigaeth a'r lleoliadau amrywiol y maent yn ymarfer ynddynt.

“ Rwy'n credu mai her fwyaf yr NMC yw gwneud yn siŵr bod bydwagedd yn cael eu cydnabod fel proffesiwn ar wahân i nyrso fel bod holl waith yr NMC yn cael ei brofi fel gwaith 'addas i fydwreigiaeth' bob tro. ”

Gill Walton yw Prif Weithredwr ac Ysgrifennydd Cyffredinol Coleg Brenhinol y Bydwagedd (RCM), Mai 2019 ⁷

Maen nhw eisiau i ni ganolbwyntio mwy ar bethau sy'n ysgogi arfer da, fel ailddilysu. Maen nhw'n gwybod nad ydyn ni yma i'w cynrychioli ond byddent yn hoffi i ni fod yn llafar am yr elfennau sy'n ei gwneud hi'n anodd iddyn nhw roi gofal da.

“ [Yr NMC i] ddefnyddio ei lais i dynnu sylw at ddiogelwch y cyhoedd a’r effaith a gaiff lefelau staffio a chymysgedd sgiliau annigonol ar hynny. ”

Gweithiwr proffesiynol ar ein cofrestr, Cymru

Blaenoriaethau posibl

- 1.** Nodi cyfleoedd i weithio gyda chofrestryddion a myfyrwyr i ailgydbwyso canfyddiadau negyddol cyfredol o’r NMC a hyrwyddo diwylliant mwy “cyfiawn”.
- 2.** Dyfnhau ein dealltwriaeth o brofiadau a chyfraniadau arbennig nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio o ddechrau eu haddysg broffesiynol ac ar draws eu gyrfa.
- 3.** Siarad yn awdurdodol am y cyd-destun y mae ein cofrestryddion yn dysgu ac yn ymarfer ynddo, gan dynnu sylw at y gwahaniaethau mewn addysg ac yn ymarferol ar draws pedair gwlad y Deyrnas Unedig.

Manteision posibl

- Hyrwyddo diwylliant cyfiawn o degwch, didwylledd a dysgu gyda manteision i’r amgylchedd ymarfer y mae ein cofrestryddion yn gweithio ynddo.
- Gall deialog broffesiynol ein helpu i nodi ble y gallai fod angen safonau neu ganllawiau newydd, neu a allwn sicrhau effaith drwy fath arall o ymyriad.

Cwestiwn yr ymgynghoriad:

Rhestrwch y blaenoriaethau hyn yn nhrefn eu pwysigrwydd?

Ile 1 yw’r pwysicaf a 3 yw’r lleiaf pwysig.

A oes unrhyw flaenoriaethau ar goll?

Dweud eich dweud www.nmc.org.uk/shaping-the-future-consultation

⁶ <https://www.nmc.org.uk/news/news-and-updates/blog-strengthening-our-voice-to-lead/>

⁷ <https://www.nmc.org.uk/news/news-and-updates/blog-speed-dating-at-the-nmc/>

4. Defnyddio a rhannu ymchwil, data a deallusrwydd



Bydd gwella ein defnydd a'n proses o ledaenu ymchwil, data a deallusrwydd, o fewn cyfyngiadau llywodraethu a diogelu data da, yn helpu i ysgogi gwelliant yn y modd y mae'r NMC yn gweithio, yn ogystal â chefnogi gwelliant ehangach i'r system.

Mae gan yr NMC arbenigedd unigryw ar ein tair rôl broffesiynol, y cyd-destun y maent yn gweithio ynddo, a'r hyn a all arwain at fethiannau mewn gofal.

“ Dylai rheoleiddwyr anelu at gyhoeddi cymaint ag y gallant yn gyfreithlon fel y gallant wella hyder y cyhoedd drwy sicrhau tryloywder. ”

Lessons Learned Review, May 2018

“ Dylai rheoleiddio ganolbwyntio ar nodi a mynd i'r afael ag achosion perygl o niwed, yn hytrach nag ymateb ar ôl i'r niwed ddigwydd. ”

Awdurdod Safonau Proffesiynol, Right Touch Regulation Revised, 2015

“ Cyhoeddi mwy o ddata yn amlach, casglu mwy o ddata, gofyn cwestiynau gwell. Mae ailddilysu'n cynnig cyfle gwych i gasglu'r wybodaeth hon. ”

Aelod o staff yr NMC

Potential priorities

- 1.** Datblygu, triongli a sicrhau bod ein data cofrestryddion ar gael, lle bo'n bosibl, ar sail ffynhonnell agored. Er enghraifft, i gasglu data hydredol ar batrymau gwaith a chwrs gyrfaedd i lywio a gwella'r gwaith o gynllunio'r gweithlu a rhoi gwybodaeth am unrhyw anghydraddoldebau systematig.
- 2.** Parhau i gynnal ymchwil i anghydraddoldebau a gweithredu ar ganfyddiadau sy'n berthnasol i ni neu annog camau gweithredu ar ran eraill.
- 3.** Gwell defnydd o ddeallusrwydd i nodi risgiau diogelwch i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal a galluogi camau amserol, rheoleiddiol.
- 4.** Dadansoddiad a phroses ledaenu fanylach (yn fewnol ac yn allanol) o ddeallusrwydd addasrwydd i ymarfer, gan gynnwys ein corff cynyddol o ddata ar elfennau cyd-destunol. Gallai hyn fod ar ffurf adroddiadau rheolaidd, fel adroddiad blynyddol y GMC ar gyflwr addysg ac ymarfer meddygol, a/neu wybodaeth uniongyrchol i gyflogwyr.

Potential benefits

- Galluogi'r NMC i fod yn fwy rhagweithiol a sbarduno camau ataliol, yn groes i'r llif, yn enwedig ar faterion diogelwch.
- Cynllunio'r gweithlu yn well.
- Hyrwyddo cynhwysiant a thegwch.

Cwestiwn yr ymgynghoriad:

Rhestrwch y blaenoriaethau hyn yn nhrefn eu pwysigrwydd?

Ile 1 yw'r pwysicaf a 4 yw'r lleiaf pwysig.

A oes unrhyw flaenoriaethau ar goll?

Dweud eich dweud www.nmc.org.uk/shaping-the-future-consultation

5. Cydweithio'n agosach ag eraill



Er mwyn cyflawni ein huchelgeisiau mae angen gweithio mwy a mwy gyda'n partneriaid rheoleiddio a phartneriaid eraill ar draws meysydd iechyd a gofal.

Gall ymarfer amlddisgyblaethol arwain at un digwyddiad yn cael ei archwilio gan fwy nag un rheoleiddiwr proffesiynol, yn ogystal â chraffu ar lefel system. Yng nghyd-destun heriau'r gweithlu, mae'n rhaid i ni fod yn siŵr nad ydym yn beio gweithwyr proffesiynol am fethiannau sy'n berthnasol i bwysau yn y system yn hytrach nag arferion unigol gwael.

Mae'n rhaid i ni hefyd ragweld problemau proffesiynol newydd y bydd y bobl ar ein cofrestr yn eu hwynebu yn eu hymarfer a rhoi arweiniad lle bo hynny'n ddefnyddiol. Er enghraifft, bydd technolegau newydd yn creu sefyllfaoedd lle na fydd yn glir ar unwaith o bosibl ai peiriant ynteu wall dynol sy'n gyfrifol am ganlyniad gwael.

“ Rhaid i reoleiddwyr weithio gydag eraill yn y system iechyd a gofal i fynd i'r afael â phryderon am ddiogelwch cleifion.

”

Adolygiad Lessons Learned, Mai 2018

Blaenoriaethau posibl

- 1.** Gweithio a rhannu gwybodaeth â rheolyddion proffesiynol a systemau eraill i nodi a mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi niwed.
- 2.** Gan weithio gyda rheoleiddwyr eraill, creu'r gallu priodol i sganio'r gorwel er mwyn sicrhau ein bod yn gallu rhagweld/nodi ac ymateb i heriau traws-reoleiddiol sy'n dod i'r amlwg, megis effaith technolegau newydd a ffyrdd newydd o weithio. Gallai hyn hefyd gynnwys datblygu safonau cyffredin a hyfforddiant ar y cyd.

Manteision posibl

- Gwelliannau o ran deall beth sy'n achosi niwed.
- Cefnogi ein proffesiynau i deimlo'n hyderus yn eu hymarfer, er enghraifft, wrth ddefnyddio technolegau newydd a chymryd rhan mewn ffyrdd newydd o weithio.

Cwestiwn yr ymgynghoriad:

Rhestrwch y blaenoriaethau hyn yn nhrefn eu pwysigrwydd?

Ile 1 yw'r pwysicaf a 2 yw'r lleiaf pwysig.

A oes unrhyw flaenoriaethau ar goll?

Dweud eich dweud www.nmc.org.uk/shaping-the-future-consultation

Adborth cyffredinol

Cwestiwn yr ymgynghoriad:

Rhestrwch ein themâu strategol drafft yn nhrefn eu pwysigrwydd?

Ile 1 yw'r pwysicaf a 2 yw'r lleiaf pwysig.

A oes unrhyw flaenoriaethau ar goll?

Dweud eich dweud www.nmc.org.uk/shaping-the-future-consultation

Sut y byddwn yn gwireddu ein gweledigaeth ac yn cyflawni ein blaenoriaethau?

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i'r NMC lle rydym yn penderfynu ar ein dyfodol newydd. Rydym yn cydweithio â'n rhanddeiliaid a'n cydweithwyr ar draws y sefydliad i ddatblygu ein strategaeth ar gyfer 2020 – 2025.

Rydym yn gwrandao ar eu hadborth ac mae'r themâu sy'n dod i'r amlwg yn dweud wrthym ein bod am fod yn sefydliad dysgu sy'n perfformio'n dda; sefydliad sydd wedi'i adeiladu ar garedigrwydd, yn arwain drwy esiampl ac yn meddwl yn wahanol. Mae ein hymgysylltiad cychwynnol hefyd wedi dangos bod gan ein rhanddeiliaid syniadau eang ac uchelgeisiol ynghylch yr hyn y dylem ganolbwyntio arno dros y pum mlynedd nesaf. Rydym hefyd yn ymwybodol iawn bod ein gwaith yn cael ei ariannu gan ffioedd a delir gan ein cofrestryddion. Mae ein cyngor wedi ymrwymo i gadw'r ffi ar y lefel bresennol am gyhyd ag sy'n bosibl. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni fod yn hyderus y gallwn gyflawni ein gweledigaeth o fewn ein lefelau adnoddau presennol.

Rydym wrthi'n adolygu ein trefniadau llywodraethu mewnol a byddwn yn adolygu ein strwythur i sicrhau ei fod yn gyson â'n cyfeiriad strategol. Efallai y bydd hyn yn galw am ailddyrannu adnoddau, i gysoni ein capasiti â'n huchelgais. Yn ogystal â hyn, mae angen i ni baratoi'r staff â'r sgiliau a'r

seilwaith angenrheidiol, yn enwedig technoleg. Rydym am sicrhau bod ein huwch reolwyr, ein panelwyr, a'r cyngor yn cynrychioli'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu yn well. Mae hyn yn ymwneud â defnyddio'r dalent orau ac ysbrydoli hyder y cyhoedd yn yr hyn a wnawn. Rydym yn ymwybodol iawn ein bod ond cystal â'n pobl. Byddwn yn adeiladu ar waith y strategaeth gyfredol ar gyfer pobl i fynd ati i ddatblygu pobl yn eu rolau a'u gyrfaedd. Fel sylfaen i hyn rydym am gynnal diwylliant o ddysgu a gwelliant parhaus, gan adeiladu ar yr arferion da sydd eisoes yn amlwg.

Byddwn yn adnewyddu ac yn ymgorffori cyfres o werthoedd ac ymddygiadau a rennir gan y bydd y rhain yn dylanwadu ar sut brofiad gaiff pobl o'r NMC yn ogystal â'r hyn a wnawn. Rydym yn ymwybodol bod ein Cod yn nodi'r gwerthoedd a'r ymddygiadau y mae'r cyhoedd yn eu disgwyl gan nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio. Er mwyn ennyn ymddiriedaeth a hyder, mae'n briodol ein bod yn modelu'r gwerthoedd a'r ymddygiadau hyn ein hunain.



Sut i ymateb i'r ymgynghoriad a'r camau nesaf

Rydym am glywed eich barn ar y weledigaeth a'r themâu yr ydym wedi'u hamlinellu yn y ddogfen hon. Rydym eisiau gwybod beth y dylem roi blaenoriaeth iddo dros y pum mlynedd nesaf yn eich barn chi. A ydym wedi anghofio am unrhyw beth? Sut y dylem flaenoriaethu'r gweithgareddau hyn?

Mae eich adborth yn hanfodol i'n helpu i gwblhau ein strategaeth bum mlynedd yn y dyfodol. Mae'r ymgynghoriad yn mynd rhagddo tan 16 Hydref 2019. Mae nifer o ffyrdd y gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

- Gallwch lenwi arolwg byr, ar-lein yn www.nmc.org.uk/shaping-the-future-consultation
- Gallwch anfon eich ymateb i consultations@nmc-uk.org
- Gallwch gyflwyno copi caled o'ch ymateb i NMC Strategy 2020–2025: Consultation on draft strategic themes, Research team, Nursing and Midwifery Council, 23 Portland Place, Llundain, W1B 1PZ

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad, mae croeso i chi gysylltu â ni yn consultations@nmc-uk.org

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg ac fel dogfen hawdd ei darllen. Gallwn hefyd ddarparu dogfen Word electronig ar gais.

Mae'r holl ymatebion i'r arolwg hwn yn ddienw ac nid oes angen i chi ddarparu unrhyw wybodaeth bersonol yn unrhyw un o'ch ymatebion. Byddwn yn sicrhau bod yr holl adborth a gyhoeddwn yn gwbl ddienw fel nad oes modd adnabod unrhyw un. Os hoffech gael gwybod am y camau nesaf, rhwch eich manylion i ni.





#futurenmc

Dweud eich dweud

www.nmc.org.uk/shapingthefuture

Shaping the
future **NMC**
2020  25